



Arolwg Blynyddol
2016/2017

Rydym yn falch iawn i gyflwyno ein hadolygiad blynyddol o'r Tymor diwethaf ym mywyd Opera Cenedlaethol Cymru. Mae'r adolygiad yn rhoi cipolwg ar gyflawniadau'r Cwmni yn ystod Tymor 2016/2017 ▶ a blas o gymeriad cwmni opera cenedlaethol Cymru. Cwmni sydd yn: feiddgar yn ei uchelgais artistig; wrth galon ei gymunedau lleol ac yn gartrefol ar lwyfan y byd; yn meithrin talent ifanc ac yn sbarduno gyrfaedd rhyngwladol; ac rydym yn eangfrydig ac yn flaengar wrth hyrwyddo opera i bawb.

Yma, rydym yn rhoi cipolwg ar ansawdd ac amrywiaeth ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn dangos sut mae opera yn parhau i drawsnewid bywydau mewn cymaint o wahanol ffyrdd.

Mark Molyneux Cadeirydd WNO

Yn Haf 2017, fe wnaethom lansio Magic Butterfly, Profiad Rhithwir (VR) a oedd yn caniatáu i'r gynulleidfa gamu i mewn i ddau o gynyrchiadau clasurol WNO – *Madam Butterfly* a *The Magic Flute*. Roedd y profiad rhad ac am ddim yn cael ei gyflwyno'n unigryw mewn cynhwysydd llong 30 troedfedd wedi ei addasu. Dechreuodd y cynhwysydd ar ei daith y tu allan i Ganolfan Mileniwm Cymru cyn ymweld â lleoliadau eraill ledled Cymru a Lloegr yn ystod Tymor yr Hydref 2017.

Beth ddywedodd ein cynulleidfa...

'Profiad arbennig, ffordd wych i gyfuno hen draddodiad gyda thechnoleg newydd'

'Ffordd wych i gyflwyno opera'

'Roedd yn ANHYGOEL! Hollol wych!'

Wedi'i noddi gan Associated British Ports (De Cymru), roedd lansiad **Magic Butterfly** yn dathlu ein partneriaeth 30 mlynedd gyda'r Cwmni.

'Dyma'r ddegfed flwyddyn ar hugain i ABP gefnogi WNO ac rydym yn falch iawn i fod yn rhan o'r prosiect arloesol a chreadigol hwn i ddathlu ein pen-blwydd arbennig. Mae cyfuno technoleg gydag opera, wedi ei gartrefu mewn cynhwysydd llong sy'n teithio o gwmpas y wlad yn gyfle gwych i ni gefnogi gwneud y celfyddydau'n hygyrch i wahanol gynulleidfaoedd.'

Matthew Kennerley Cyfarwyddwr Rhanbarthol, ABP De Cymru

'Mae Opera wedi bod yn gyfrwng pwysig ar gyfer arloesedd technolegol yn ogystal ag arloesedd celfyddydol ers dros 400 mlynedd. Felly mae'n nodedig mai Magic Butterfly yw'r fenter operatig VR cyntaf erioed o'r DU i ddefnyddio'r dechnoleg i greu darn o gelf sy'n sefyll yn annibynnol.'

Steph Power Opera Now

Hyd yn hyd profwyd

3,250 o bobl 13 – 90+ **Magic Butterfly**

Rhagflas Magic Butterfly ▶

**MAGIC
BUTTERFLY**



#WNOmagicbutterfly

Creu

Roedd y tymor 2016/2017 unwaith eto yn flwyddyn lle'r oedd WNO ar flaen y gad. Dangosodd Tymor Shakespeare 400 yn yr hydref ddarganfyddiad eithriadol o Opera Shakespeare newydd pwysig – *The Merchant of Venice*. Yn y gwanwyn, roedd ein Corws anhygoel yn rhan o wireddiad dwys a gwefreiddiol o gampwaith Frank Martin, *Le Vin herbé* – digwyddiad a arweiniodd at The Spectator yn rhoi'r teitl 'cwmni opera mwyaf beiddgar Prydain' i ni.

Yn ystod haf 2017, perfformiwyd y ddwy opera gyntaf i gael eu harwain gan ein Cyfarwyddwr Cerddoriaeth newydd, Tomáš Hanus 🎵, ac roedd y ddwy ohonynt yn fuddugoliaeth ysgubol iddo ef, Cerddorfa WNO a'r Cwmni. Yn benodol, roedd *Der Rosenkavalier* yn gynhyrchiad hynod ddeallus a gafodd ei berfformio gyda steil a manylder eithriadol gan y cast a'r gerddorfa o dan arweiniad Tomáš. Ychydig iawn o berfformiadau opera gwell na'r rhain a welwyd yn 2017.

Ac yn bwysicaf oll, mae'r perfformiadau hyn o ragoriaeth artistig ddwys yn cael eu lledaenu ledled Cymru a Lloegr, ac fe'u cefnogir gan raglenni addysg a rhaglenni allgymorth dychmygus a phellgyrhaeddol. Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn dod â rhagoriaeth i'r holl ranbarthau ac ardaloedd y mae'n eu cyffwrdd, yn arbennig lleoliadau rhyngwladol pellennig megis Dubai a Hong Kong.

David Pountney Cyfarwyddwr Artistig WNO



115 o berfformiadau llawn mewn **11** o drefi a dinasoedd ledled Cymru, Lloegr a'r Byd

4

cynhyrchiad newydd

1,495

o gyfeiriadau yn y cyfryngau, yn y DU ac yn Rhyngwladol

101

o adolygiadau pedwar neu bum seren mewn adolygiadau print ac ar-lein

9

rhestr fer ar gyfer gwobr

'Heb os nac oni bai, un o uchafbwyntiau fy ngyrfa! Rwy'n caru WNO!'

Luis Cansino *Macbeth, Macbeth*

'Roeddwn yn ddiolchgar iawn i gael cydweithwyr cefnogol iawn yn y cast ac yn y cwmni yn fwy cyffredinol trwy gydol fy nghyfnod gyda WNO.'

Gareth Brynmor John enillydd Gwobr Syr John Moores WNO, Schaunard, *La bohème*

'Mae cyfeillgarwch y bobl sy'n gweithio drwyddi draw yn WNO – y rheolwyr, y criw llwyfan, y corws ayyb yn creu awyrgylch delfrydol ar gyfer gwaith artistig gwych. Mae ansawdd y cynyrchiadau rwyf i wedi bod ynghlwm â nhw wedi bod yn ardderchog bob amser – rwyf yn edrych ymlaen at gynyrchiadau'r dyfodol!'

Miklós Sebestyén *The Duke of Venice, The Merchant of Venice*

'The sumptuous music, played with obvious delight by the WNO Orchestra under the ebullient direction of conductor Tomáš Hanus, sweeps over the audience like a refreshing breeze.'

The Western Mail ar *Die Fledermaus*

'A production that makes a claim for the piece to be more than a musical curiosity.'

British Theatre Guide ar *The Merchant of Venice*

'WNO's *Madam Butterfly* is opera at its traditional best.' **The reviews hub**

'All praise, first, goes to WNO's new Music Director, the Czech-born Tomáš Hanus, appointed last year. If everything he does is as good, the company has cause to smile. Here he kept a deft balance between exuberance – horns whooping in noisy vulgarity, harps and celesta sweetly viscid – and essential rigour.'

The Observer ar *Der Rosenkavalier*

Adfywiadau

La bohème
Madam Butterfly

Cynyrchiadau Newydd

Macbeth
The Merchant of Venice
Kiss Me, Kate
Der Rosenkavalier
Le Vin herbé

Daeth dros 100,000 o bobl i weld perfformiad llawn gan WNO yn ystod 2016/2017, gyda dros hanner o'r rhain yn dod i weld WNO am y tro cyntaf. Mae ein tocynnau £10 i bobl ifanc o dan 30 oed yn parhau i fod yn llwyddiant ysgubol gyda mwy o bobl ifanc nac erioed o'r blaen yn manteisio ar y cynnig hwn.

4,782 o docynnau ar gyfer pobl ifanc o dan 30 oed wedi'u gwerthu

@csbrasnett @WNOtweet perfformiad arbennig o *Rosenkavalier* pnawn ma, a rhaglen wych i rai dan 30 – fy ffrind newydd fwynhau ei opera gyntaf!

123,593

cyfanswm y gynulleidfa ar gyfer cynyrchiadau llawn a pherfformiadau cyngerdd

14,837 o bobl yn archebu tocynnau am y tro cyntaf (53% o'r holl archebwyr)

Mae technoleg yn trawsffurfio'r ffordd rydym yn profi'r byd. Rydym yn credu nad dim ond yn y theatr mae opera yn perthyn – gellir ei mwynhau ar-lein, yn y sinema, mewn gofodau digidol newydd. Ond mae rhaid i ni hefyd gofio'r pethau sy'n ffurfio ein celfyddyd – cerddoriaeth, drama a phobl. Mae'n rhaid i ni ganfod cydbwysedd: croesawu'r dyfodol wrth barhau i gofio ein treftadaeth.

9,066

wedi gwyllo *Le Vin herbé* ar The Opera Platform a Arte Concert, hyd yn hyn

'Mae darn yn gwneud gofynion dihafal ar ei hadroddwyr corawl – dyna pam ei fod yn ddewis mor gyffrous i WNO – mae ei Gorws arbennig yn y blynyddoedd diwethaf wedi dyfeisio eu sioe eu hunain (*Chorus!*) ac wedi ymgymryd â darnau megis *William Tell* a *Moses und Aron*.'

Polly Graham Cyfarwyddwr

Yn y Gwanwyn, daeth WNO â *Le Vin herbé*, sydd ddim yn cael ei lwyfannu'n aml, yn fyw a chafodd ei dderbyn gyda llawer o ganmoliaeth gan y cyhoedd a'r beirniaid. Cyfarwyddwyd y cynhyrchiad gan Polly Graham, sydd wedi gweithio gyda WNO fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol Genesis am ddwy flynedd, cafodd y cynhyrchiad ei weld gan gyfanswm o 3,351 o bobl ledled Cymru a Lloegr. Ond, mae'r opera wedi cyrraedd ac yn parhau i gyrraedd cynulleidfa fawr trwy'r prosiectau darlledu ar-lein arloesol, The Opera Platform ac Arte Concert.

Mae ein cynulleidfa ddigidol yn parhau i dyfu yn ystod 2016/2017, gan ein caniatáu i adrodd stori WNO mewn mwy o ffyrdd, i fwy o bobl nag erioed o'r blaen.

★★★★★ The Guardian
★★★★★ The Stage
★★★★★ The Telegraph
★★★★★ The Independent

Cafodd *Le Vin herbé* ei henwebu yng nghategori 'Cyflawniad mewn Opera' UK Theatre Awards

43,246

cyfanswm y gynulleidfa cyfryngau cymdeithasol

199,136

o ymweliadau â'r wefan

109,300

yn gwyllo ar YouTube

'sublimely sung... a vividly poignant marriage of music and theatre'

The Independent ar *Le Vin herbé*

Roedd Hydref 2016 yn gychwyn ar daith gyffrous i Opera Cenedlaethol Cymru wrth i'r Cwmni gyhoeddi penodiad Cyfarwyddwr Cerddoriaeth newydd, **Tomáš Hanus**. Mae Tomáš yn cael ei gydnabod fel un o'r arweinwyr mwyaf cyffrous a phwysicaf yn y byd ac yn ei flwyddyn gyntaf gyda WNO wnaeth o yn bendant ddim siomi.

Gwnaeth Tomáš ei ymddangosiad cyntaf fel Cyfarwyddwr Cerddoriaeth yn un i'w gofio pan arweiniodd Gerddorfa, Corws a Chorws Cymunedol WNO yn Symffoni Atgyfodiad Mahler fel rhan o'r Gyfres o Gyngherddau Rhyngwladol yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd ym mis Hydref 2016.

'Mae gennym lawer i edrych ymlaen ato yn y dyfodol gyda Tomáš. Gallech deimlo'r crychguriadau'r galon yn yr ystafell ar ôl y perfformiad.'

Huw Lewis Partner WNO

'...fiery and fabulous tribute to Mahler' **The Guardian** ★★★★★

Mae gwreiddiau Opera Cenedlaethol Cymru yn y gymuned leol gydag aelodau o'r gymuned yn dod ynghyd wedi'u hysgogi gan eu hoffter o ganu. Croesawodd Corws Cymunedol WNO gantorion amatur o bob oed a chefnidir ledled Cymru (a dros y ffin) i ddod i gymryd rhan yn y profiad bythgofiadwy gyda WNO, ac i fod yn rhan o gymuned WNO.

Nid oedd ei ymddangosiad operatig cyntaf yr haf hwn yn eithriad, gyda pherfformiadau o *Der Rosenkavalier* a *Die Fledermaus* yn cael derbyniad gwresog iawn.

Mae Tomáš yn edrych ymlaen at dreulio cymaint o amser â phosib yng Nghaerdydd a chael cyflwyno prifddinas Cymru i'w deulu.

'He and his terrific orchestra don't miss a trick in a reading that is sumptuous and expansive as well as vivacious and witty...It seldom gets better than this.'

The Telegraph

'Already it looks like a good match, the WNO Orchestra played with superb muscularity and finesse under purposeful direction.'

The Times

'Daeth *Die Fledermaus* a *Der Rosenkavalier* â llawer o egni i'r cwmni cyfan (roedd y gynulleidfa hefyd yn amlwg yn ei deimlo). Roedd y Gerddorfa a'r Corws yn deall arddull cerddorol unigryw iawn pob cyfansoddwr. *Der Rosenkavalier* yw un o'r operâu anoddaf i gerddorfa – chwaraeodd ein cerddorion yn wych.'

Tomáš Hanus Cyfarwyddwr Cerddoriaeth WNO

Cwrdd â Tomáš Hanus ▶

Mae gan WNO raglen o gyngherddau helaeth, sy'n rhedeg ochr yn ochr â'n perfformiadau opera prif lwyfan. Mae ein Cerddorfa a Chorws hynod dalentog wrth wraidd y Cwmni ac maent yn teithio hyd a lled y DU, yn ogystal â mwynhau bri rhyngwladol haeddiannol.

Mae eu statws fel ensemble o safon byd yn eu rhinwedd eu hun yn cael ei ddangos gan y cysylltiad nodedig gyda'r Gyfres o Gyngherddau Rhyngwladol yn Neuadd Dewi Sant Caerdydd lle mae Cerddorfa WNO yn gonglfaen i'r rhaglen.

Teithia Cerddorfa a Chorws WNO yn rheolaidd yng Nghymru a Lloegr ac maent wedi dod yn un o'r ensembles cerddorfaol mwyaf amryddawn yn y DU.

'Rwyf yn mwynhau amrywiaeth y gerddorfa – un wythnos byddwn ni yn y pwll, yr wythnos wedyn ar y llwyfan, yr wythnos ar ôl honno mewn ysgolion neu'n perfformio mewn cyngerdd teuluol, y nesaf yn cael ein harwain gan ei harweinydd David Adams yn ein cyngherddau 'hunan-yrru'.'

Lowri Porter Arweinydd Cynorthwyol, Cerddorfa WNO

16,088

o bobl wedi gweld WNO yn perfformio mewn cyngherddau mewn

9 lleoliad gwahanol



Lowri Porter a Cherddorfa WNO yn y Cyngerdd Teulu. Llun gan Kirsten McTernan

Estyn allan

Ni yw cwmni Opera Cenedlaethol Cymru ac rydym yn falch i gynrychioli Cymru ar y llwyfan lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym yn ymdrechu i ddod ag opera i bawb, ac i fynd â'n gwaith i bedwar ban byd, naill ai gyda'n lleoliadau partner neu drwy gydweithio a chwmnïau opera a lleoliadau cyngerdd eraill.

Ble rydym wedi perfformio...

Lloegr

Birmingham Hippodrome

Bristol Hippodrome

Liverpool Empire

London, Royal Opera House

Milton Keynes Theatre

Oxford New Theatre

Plymouth Theatre Royal

Southampton Mayflower Theatre

Emiraethau Arabaidd
Unedig

Dubai Opera

Cymru

Abergwaun

Abertawe

Aberystwyth

Bae Cinmel

Bangor

Caenarfon

Caerdydd, Canolfan Mileniwm

Cymru a Neuadd Dewi Sant

Cilgerran

Conwy

Drenwydd

Llandudno, Venue Cymru

Llangollen

Sir Fflint

Wrecsam

Ynys Môn

Yr Wyddgrug

Milltiroedd y teithiwyd:

41,006

**Pwy rydym wedi
cydweithio gyda...**

Lloegr

Leeds, Opera North

Surrey, Grange Park Opera

Groeg

Greek National Opera, Athens

Gogledd Iwerddon

Belfast, Northern Ireland Opera

Yr Almaen

Theater Magdeburg, Magdeburg

Yr Eidal

Haydn Foundation, Bolzano

Gwlad Pwyl

Teatr Wielki, Poznan, Warsaw

Y Swistir

Theater St Gallen, St Gallen

Awstralia

State Opera of South Australia

Lledaenu Hud WNO trwy'r Byd i Gyd

Ym mis Mawrth 2017, teithiodd Opera Cenedlaethol Cymru i'r Emiraethau Arabaidd Unedig, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a Phrifysgol De Cymru, i fod yn rhan o dymor agoriadol Opera Dubai. Yn ogystal â pherfformio *La bohème* a *Madam Butterfly* i dorfeydd, bu ein tîm leuenctid a Chymuned yn ymgysylltu â phobl hen ac ifanc drwy weithdai a dosbarthiadau meistr gyda chantorion a cherddorion cerddorfa WNO, a chawsant gyfle i fynd y tu ôl i'r llenni yn ystod ymarferion agored. Fe wnaethom hefyd gynnig gweithdai 'Dewch i Ganu', lle'r oedd cyfle i bawb sy'n mwynhau canu i gymryd rhan, a hefyd perfformiadau 'Access all Arias' – digwyddiadau opera pop-up a oedd yn cael eu cynnal mewn mannau cyhoeddus gan gynnwys y British Council yn Dubai a sgwâr Dubai Opera.

'Bu'n fraint enfawr i WNO gymryd rhan yn nhymor agoriadol Dubai Opera House godidog. Rydym yn mynd â dawn gerddorol angerddol ac emosiynol Cymru o gwmpas y byd, ac roedd yn anrhydedd arbennig i fod yn gyfrifol am ddod â rhinweddau rhagorol operâu godidog Puccini i gynulleidfa newydd yn y Gwlf.'

David Pountney Cyfarwyddwr Artistig WNO

Mae'r perfformiadau hyn yn rhan o UK/UAE 2017, blwyddyn o Gydweithio Creadigol dan arweiniad y British Council.



11,660 wedi gweld perfformiad neu wedi cymryd rhan, oed 7+

Gweithdai a gweithgareddau gyda **12** ysgol leol.

Dros **1,000** o bobl ifanc wedi gwylio Ymarferion Gwisgoedd.

'Rwy'n siŵr y bydd eich perfformiadau bythgofiadwy yn Dubai yn un o uchafbwyntiau 2017 UK/UAE Year of Creative Collaboration. Mae WNO yn wirioneddol yn sefydliad celfyddydol o safon fyd-eang ac yn lysgennad diwylliannol rhagorol i Gymru.'

Lesley Griffiths Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Cerddorfa WNO yn Dubai

Ysbrydoledig

Rydym wedi ymrwmo i gyflwyno pobl ifanc i'n gwaith. Ym mis Mai 2017, dychwelodd ein **cyngerdd teuluol** i Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, lle croesawyd plant a'u teuluoedd i brofi opera a cherddoriaeth glasurol am y tro cyntaf, i lawer ohonynt.

Mae'r cyngherddau hyn yn rhoi cyflwyniad i'r ffurf gelf mewn amgylchedd hamddenol a hwyliog. Maent yn helpu i wneud opera yn fwy hygyrch i'r genhedlaeth nesaf drwy ryngweithio â'r gynulleidfa, caneuon cyfarwydd poblogaidd, gweithgareddau cyn y sioe a thocynnau fforddiadwy ar gyfer y teulu cyfan. Edrychwn ymlaen at cynnal mwy o gyngherddau teulu ar draws Cymru a Lloegr yn y flwyddyn nesaf.

1,896 wedi dod i'n Cyngerdd Teuluol

'Diolch enfawr. Hwn oedd y cyflwyniad go iawn cyntaf i gerddoriaeth glasurol i'm plant, ac roeddent wedi syfrdanu ac wrth eu boddau.'

Aelod o Gynulleidfa Cyngerdd Teulu WNO

Trydariadau y gynulleidfa:

'Cyngerdd teuluol #WNO hollol wych yn @NeuaddDewiSant yn dangos pa mor hygyrch y gall cerddoriaeth glasurol ac opera fod'

'Wedi mwynhau cyngerdd teuluol @WNOtweet. Ffordd grêt i blant gael profiad o gerddoriaeth glasurol. Roedd @wynneevans yn ddigrif iawn!'



Llun gan Kirsten McTernan

Mae yna lawer i'w ddysgu gan opera. Yn ogystal â dysgu am greu a chyfansoddi cerddoriaeth, mae'r ffurf gelf hon hefyd yn helpu i feithrin hyder a sgiliau rhyngpersonol, gwaith tîm ac yn gwella meysydd eraill o ddysg plentyn. Drwy wreiddio opera i fewn i'r ysgolion rydym yn gweithio gyda mae WNO wedi galluogi cerddoriaeth i fod yn rhan gyson ac integredig o'u bywyd a'u dysgu.

Mae Sefydliad Hodge wedi galluogi i waith ysgolion cynradd ac arbennig WNO i dyfu'n sylweddol ers mis Medi 2015 gyda'i adduned o 5 mlynedd o gefnogaeth i waith mewn ysgolion yng Nghaerdydd yn hanfodol wrth i'r rhaglen barhau i ddatblygu dros y blynyddoedd i ddod.

Cyflwynodd WNO ein prosiect **Dysgu Digidol** i ysgolion ym Mirmingham, gan ganolbwyntio ar *Kiss Me, Kate*. Bu'r cwmni'n gweithio â 200 o blant Blwyddyn 5 o ysgolion cynradd leol wedi'u lleoli mewn ardaloedd sydd â mynediad cyfyngedig i'r celfyddydau yn nodweddiadol.

Yn Hydref 2016, cyflwynodd WNO **Opera Engage** am y drydedd flwyddyn, mewn partneriaeth â Mayflower Theatre yn Southampton. Fel rhan o'r rhaglen bu 75 o bobl ifanc yn creu gwaith newydd wedi'i ysbrydoli gan ein cynhyrchiad o *Kiss Me, Kate*. Rhoddwyd cyfleodd i ddatblygu eu doniau creadigol ac amrywiaeth ehangach o sgiliau naill ai fel hobi neu i baratoi at yrfa yn y celfyddydau yn y dyfodol.

Fideo Dysgu Digidol *Kiss Me, Kate* ▶

46 o ysgolion
39 ysgol newydd eleni ledled Cymru a Lloegr
7-16 oed

'Fel ysgol rydym yn gweld cerdd fel arf sy'n cynorthwyo plant i baratoi ar gyfer yr 21ain ganrif. Mae cyfathrebu drwy gerddoriaeth yn caniatáu i blant fynegi eu hunain yn hyderus. Drwy weithio gyda WNO mae'r plant wedi dysgu dangos empathi tuag at wahanol ddiwylliannau ac wedi dysgu gwerthfawrogi eu diwylliant eu hunain ar yr un pryd. Mae cerddoriaeth yn helpu plant i fod yn ddinasyddion mwy hyderus a chydweithredol. Mae'n un o'r arfau diwylliannol gorau sydd gennym.'

Helen Jones Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon

492

co blant yn gwyllo'r ymarfer gwisgoedd *Kiss Me, Kate* 9 – 16 oed
14 o ysgolion yn cymryd rhan

Rydym yn credu bod opera'n rhywbeth byw a dylai fod yn hygyrch i bobl ifanc o bob cefndir cymdeithasol ac economaidd. Yn Hydref 2016 croesawodd WNO blant ysgol i ymarfer gwisgoedd *Kiss Me, Kate*. Cyn i'r plant ymuno â ni yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, buom i'r 14 ysgol wahanol i gyflwyno gweithdai ar y cynhyrchiad.

'Gwnaeth pawb fwynhau'r gweithdy a'r perfformiad yn ofnadwy ac rwy'n siŵr y bydd yn cael ei gofio am flynyddoedd i ddod!'

Christopher Newcombe Pennaeth, Ysgol Gymraeg Pwll Coch, Caerdydd

I lawer o'r disgyblion dyma oedd eu profiad cyntaf o opera, ond ar ôl plannu'r hadyn mae'n codi awch am y ffurf gelf yn y dyfodol.

10,459

yn cymryd rhan mewn digwyddiadau Dewch i Ganu

Rydym yn annog y cyhoedd i ddod at ei gilydd i ganu gyda WNO. Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol o ganu. Mae croeso cynnes i bawb.

1,595

o bobl wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau CânSing yn Wrecsam, Llandudno a Chaerdydd

20,000

o blant wedi lawrlwytho adnoddau CânSing y llynedd, sy'n cynnwys dau o ddarnau newydd wedi'u creu mewn partneriaeth ag Opera Cenedlaethol Cymru

45,143

o bobl wedi ymgysylltu neu gymryd rhan yn ein gwaith leuenctid a Chymuned

Rydym yn gwreiddio WNO yn ein cymunedau, yn creu gwaith ystyrlon a pherthnasol ac yn gwneud opera yn rhan o fywyd bob dydd.

Ni yw'r cwmni opera ar gyfer Cymru ac eleni fe wnaethom addewid i fod yn bresennol mewn mwy o leoedd – gan ddechrau gyda chanolfan barhaol yng Ngogledd Cymru, wedi'i leoli yn Venue Cymru, Llandudno o dan arweiniad Ruth Evans, Cynhyrchydd WNO.

Wrth i ni ymgartrefu yng nghymuned Gogledd Cymru, rydym wedi dechrau datblygu cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli, ac wedi sefydlu rhai newydd er mwyn cyd-weithio i gael effaith sylweddol ar y rhanbarth. Mae hwn yn ymrwymiad parhaus wrth i ni anelu i integreiddio WNO i feysydd lle mae mynediad i'r Cwmni wedi bod yn gyfyngedig.

Sefydliadau yng Ngogledd Cymru sydd wedi cydweithio â ni –

CânSing; Venue Cymru, Llandudno; Theatr Clwyd, yr Wyddgrug; Canolfan Pontio, Bangor; Galeri Caernarfon; Theatr Colwyn; Sinfonia Newydd; Côr Canwch gyda ni / Tenovus; Canu Conwy; Gwasanaeth Cerdd William Mathias

'Rydym eisiau i'n cyllid helpu i feithrin ymgysylltiad â diwylliant mewn ardaloedd yn y DU lle mae yna lai o ddarpariaeth. Rydym wedi cefnogi gwaith Opera Cenedlaethol Cymru gyda chymunedau yng Nghymru ers nifer o flynyddoedd ac roeddem ni'n awyddus i helpu'r cwmni i ddefnyddio ei brofiad i weithio mewn ffordd newydd mewn ardaloedd o Ogledd Cymru lle na chafwyd llawer o ymgysylltiad o'r blaen. Nid dod o hyd i gynulleidfaoedd newydd ar gyfer opera yw'r unig fwriad – mae hefyd yn ymwneud ag annog pobl i gymryd rhan ac i ddod o hyd i'w lleisiau eu hunain, yn ogystal â helpu i gryfhau'r rhwydwaith o sefydliadau celfyddydol yng Ngogledd Cymru.'

Esmée Fairbairn Foundation

12,000+

o gyfranogwyr ar draws prosiectau Gogledd Cymru Oed 7 i 90+

Llun gan Kristina Banholzer

Meithrin

'Rydym yn ddiolchgar bod aelodau'r Opera leuenctid yn cael cymaint o gefnogaeth ac yn cael eu hamgylchynu gan bobl broffesiynol, pobl sydd i weld yn barod i adnabod a gwerthfawrogi talent, ac i ddod o hyd i ffyrdd i'w basio ymlaen.'

Rhiant aelod o'r Opera leuenctid

Mae dyfodol Opera yn dibynnu ar y genhedlaeth nesaf a dyna pam rydym mor ymroddedig i feithrin talent ein hartistiaid ifanc ac i barhau i greu a chynhyrchu operâu sydd wedi eu hysgrifennu ar gyfer, ac yn cael eu perfformio gan bobl ifanc.

Mae **Opera leuenctid WNO** yn rhoi llwyfan i artistiaid ifanc i ddatblygu'n broffesiynol trwy waith caled ac ymroddiad. Mae'r cwmni ieuenctid yn parhau i gynnig repertoire uchelgeisiol i gantorion ifanc, wrth ddarparu cyfleoedd hyfforddiant proffesiynol a pherfformio trwy gydol y flwyddyn, gyda'r bwriad o dywys talent ifanc i'r cam nesaf o'u gyrfaeodd. Gweithiodd Opera leuenctid gyda thua 250 o gantorion rhwng 10 a 25 oed ledled y DU drwy gydol 2016/17 – gyda'r grwpiau i gyd dan eu sang.

Mae ein cynllun **Artist Cysylltiol** yn parhau i adnabod cantorion Prydeinig ifanc ac yn datblygu eu talent ar ddechrau eu gyrfa. Mae ein Hartistiaid Cysylltiol yn gweithio ar gynyrchiadau llawn,

datganiadau a chyngherddau sy'n golygu eu bod yn cael profiad llawn o waith y Cwmni. Yn 2016/2017 dewiswyd Anna Harvey fel Artist Cysylltiol newydd WNO a buodd hi'n rhan o gynyrchiadau'r Haf. Yn ystod hydref 2017 bydd Anna yn perfformio rôl y Tywysog Orlofsky yn *Die Fledermaus*.

'Mae 10 aelod newydd wedi ymuno ag Opera leuenctid WNO o ganlyniad i'n rhaglen ysgolion eleni. Rydym wedi cynnig cyfle i fyfyrwyr talentog o ysgolion lleol i gymryd rhan, gyda WNO yn ysgwyddo'r costau ychwanegol. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod Opera a chyfleoedd i ganu yn parhau yn hygyrch i bob unigolyn ifanc.'

Paula Scott Cynhyrchydd Opera leuenctid WNO

'Gweld llefydd newydd, canu mewn theatrau a mwynhau ymateb y gynulleidfa a'r cyffro o fod ar lwyfan. Felly hoffwn ddiolch i bawb yn WNO – rwy'n cael amser gwych!'

Anna Harvey Artist Cysylltiol WNO

Llun gan Kirsten McTernan

'Cawsom groeso cynnes iawn gan WNO, pawb o'r adran wisgoedd i swyddfa'r cwmni trwyddo i'r adran wigiau a Cherddorfa WNO, roeddynt i gyd yn gwneud popeth posib i'n helpu ni, gan ei wneud yn brofiad dymunol iawn.'

Benjamin Lewis Artist Ifanc o'r National Opera Studio

Er mwyn sicrhau perthnasedd dyfodol opera, mae'n rhaid i ni fuddsoddi heddiw. Dyna pam rydym nid yn unig yn datblygu talent eithriadol ein hunain, ond hefyd yn cadw cysylltiad cryf ag eraill yn y diwydiant i feithrin y talent ifanc gorau posib.

Rydym wedi ymrwymo i gynnig cyfleoedd i gerddorion ifanc i gymryd rhan yn ein rhaglen fentora ochr yn ochr, drwy raglenni ymarfer a pherfformio gyda'r myfyrwyr. Mae'r gwaith wedi bod yn digwydd trwy bartneriaeth gyda **Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru**, **Conservatoire Birmingham** a pherthynas newydd gyda **Chonservatoire Cerdd a Dawns Trinity Laban** yn Greenwich.

Roedd ein cyngerdd yn Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd yn yr Hydref 2016 yn cynnig cyfle unigryw i talent gerddorfaol ifanc. Roedd myfyrwyr llinynnol o'r Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn chwarae gyda Cherddorfa WNO, roedd yn brofiad arbennig iawn iddynt ac yn enghraifft arall o'n perthynas agos â'r Coleg.

Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn mwynhau perthynas hirsefydlog gyda **The National Opera Studio** sydd hefyd ag enw da yn rhyngwladol am feithrin y talent operatig ddisgleiriaf. Pob blwyddyn rydym yn gwahodd Artistiaid Ifanc o The National Opera Studio i dreulio wythnos gyda'r cwmni, ar ddiwedd yr wythnos maent yn cael perfformio ar lwyfan Canolfan Mileniwm Cymru ochr yn ochr â Cherddorfa WNO.

Llun gan Kirsten McTernan

Mae cyd-weithio wrth galon yr hyn a wnawn ac mae hyn yn ymestyn ymhell y tu hwnt i fyd yr opera. Rydym yn credu trwy weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth, gyda chydweledigaeth o ragoriaeth, nid yn unig ydym yn gwella ein gwaith ni, ond hefyd gwaith y bobl rydym yn gweithio gyda nhw.

Partneriaeth

'Rydym wedi parhau i feithrin ein partneriaethau gwerthfawr, yn y sector celfyddydol, busnes, addysg a chymunedol trwy gydol 2016/2017. Mae'r rhain yn cyfoethogi'r Cwmni mewn cymaint o wahanol ffyrdd. Sicrheir ein cynaliadwyedd a'n sefydlogrwydd gan nawdd craidd a ddarperir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Arts Council England a hefyd gan haelioni'r holl sefydliadau ac unigolion sy'n dangos cefnogaeth hael i'r Cwmni, a'r holl waith rydym yn ei wneud. Mae'r cysylltiadau a'r buddsoddiadau hyn yn hanfodol i fywyd WNO ac maent i gyd yn rhan hanfodol o wneud y Cwmni mor amrywiol, gyfoethog a bywiog ag y mae heddiw.'

Leonora Thomson Rheolwr Gyfarwyddwr WNO

Llun gan Kirsten McTernan



Sefydlwyd Cardiff Theatrical Services (CTS) ym 1984 fel gweithdai mewnol Opera Cenedlaethol Cymru. Mae wedi ennill enw da am adeiladu golygfeydd eithriadol o safon uchel ar gyfer rhai o gwmnïau mwyaf blaenllaw'r byd ym myd y celfyddydau perfformio, atyniadau i ymwelwyr ac arddangosfeydd.

Yn ystod 2016/2017 bu CTS yn gwneud gwaith i nifer o wahanol sefydliadau.

Ambassador Theatre Group, Attingham Hall, BBC, Chester Performing Arts Centre, Chichester Festival Theatre, English National Opera, English Touring Opera, Ffotogallery, Glyndebourne, Guildhall School of Music, Houston Grand Opera, Impossible Productions, Leicester Curve, Mint Motion, Music Theatre Wales, National Dance Company Wales, National Theatre, National Theatre Wales, Oxford Playhouse, Royal Horticultural Society, Royal Opera House, Royal Shakespeare Company, Royal Welsh College of Music & Drama, Sheffield Theatres, Duke of York Theatre, South Bank, Underbelly, Wales Millennium Centre, Young Vic.

Cyd-gynyrchiadau yn 2016/2017

Macbeth Northern Ireland Opera, Belfast, UK

The Merchant of Venice Bregenzer Festspiele, Austria; Adam Mickiewicz Institute fel rhan o raglen Music Polska a Teatr Wielki, Warsaw

Kiss Me, Kate Opera North, Leeds, UK

Le Vin herbé Theater St Gallen, St Gallen, Switzerland

Der Rosenkavalier Theater Magdeburg, Magdeburg, Germany

Llogi

Figaro Gets a Divorce Teatr Wielki, Poznan, Poland

Tosca State Opera of South Australia


Jenůfa Grange Park Opera, Surrey, UK

Lohengrin Greek National Opera, Athens

A Christmas Carol Haydn Foundation, Bolzano, Italy

5 o gyd-gynyrchiadau wedi'u perfformio a chyflwyno gan WNO

Blwyddyn ar ôl blwyddyn rydym yn cynhyrchu opera wych a blwyddyn ar ôl blwyddyn rydym wedi ymrwmo i fod yn werth eithriadol am arian ac am sicrhau ein bod yn ymestyn pob punt o gymhorthdal cyhoeddus mor bell â phosib. Rydym yn gweithio'n ddiflino i ategu'r incwm hwn gyda gwerthiant tocynnau, codi arian a llogi cynyrchiadau, ymysg gweithgarwch masnachol arall.




Incwm

- Grantiau cyhoeddus gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Arts Council England
- Incwm swyddfa docynnau
- Codi arian
- Cardiff Theatrical Services – setiau trydydd partion
- Incwm arall a enillir

'Rydym yn falch i gefnogi WNO, a wnaeth, yn 2016/17, ailddatgan ei allu i gynnal, datblygu a herio cynulleidfaoedd gyda chymysgedd o ffefrynau di-ffael a repertoire llai cyfarwydd. Ochr yn ochr ag adfywiadau pwysig o *La bohème* a *Madam Butterfly*, rydym wedi gweld cynhyrchiad beiddgar o *Le Vin herbé* oedd yn cynnwys y corws a'r campwaith Fiennaidd, *Der Rosenkavalier*. Rhoddodd dau faes bleser arbennig i mi: ffurf syfrdanol y gerddorfa o dan Tomáš Hanus, yn y pwll ac ar lwyfannau cyngerdd, a chyflawniadau cyffrous Opera leuencid WNO fel y gwelwyd yn *Kommilitonen!* (Mehefin 2016) – moment gobeithiol yn y daith i ehangu apêl a chyrhaeddiad opera..'

Phil George

Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru



Gwariant

- Costau cefnogaeth
- Costau codi arian
- Opera
- Costau Marchnata
- Costau leuencid a Chymunedol
- Cardiff Theatrical Services – setiau trydydd partion

'Mae gan Opera Cenedlaethol Cymru enw da am ragoriaeth, ac yn fwyfwy yn estyn allan i gymunedau yng Nghymru a Lloegr. Maent yn chwarae rhan bwysig yn ein bywyd diwylliannol ac rydym yn falch i barhau ein cefnogaeth tuag atynt a gweld ein cronfa yn creu cyfleoedd newydd ar gyfer ystod eang o bobl i gael ei hysbrydoli gan opera.'

Sir Nicholas Serota CH

Cadeirydd o Arts Council England

'Mae fy nyled i Opera Cenedlaethol Cymru am gyflwyno'r byd gwych hwn i mi, tua 40 mlynedd yn ôl, yn enfawr. Rydym wedi gweld dros 420 o berfformiadau opera yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yn unig. Nawr, rwy'n ceisio pasio'r byd gwych hwn ymlaen i'r genhedlaeth nesaf.'

Peter Seaborne Partner WNO

Diolch

Hoffai Opera Cenedlaethol Cymru
ddiolch i'w holl gefnogwyr yn
2016/2017:



Y Cwmni yn Nhymor yr Haf 2017 *Die Fledermaus*. Llun gan Bill Cooper

Noddwr **Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru**
Llywydd Anrhydeddus **Mathew Prichard CBE, DL**
Llywydd Emeritus **Lord Davies o Llandinam**
Arweinydd Llawryfog **Carlo Rizzi**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council England

Partneriaid Busnes a Noddwyr

Ancre Hill Estates
Associated British Ports
Atkins
Capital Apartments
Cardiff Metropolitan University
Eversheds Sutherland LLP
Gordon Dadds LLP
Lexon
Lexus Cardiff
MAC Cosmetics
Mandarin Stone
Mosimann's
Penderyn Distillery
Tidal Lagoon Power
University of South Wales
Waitrose – Community Matters
Welsh Government

Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

The Adam Mickiewicz Institute
The Barbara Whatmore
Charitable Trust
Bower Trust
Colwinston Charitable Trust
The Derek Hill Foundation
Esmée Fairbairn Foundation
Garfield Weston Foundation
G C Gibson Charitable Trust
Gibbs Charitable Trust
The Great Britain Sasakawa
Foundation
Hodge Foundation
Jenour Foundation
John S Cohen Foundation
Joseph Strong Frazer
Joyce Fletcher Charitable Trust
The Kirby Laing Foundation
Leonard Chadwick Charitable Trust
Millichope Foundation
The Nicholas John Trust
Oakdale Trust
Simon Gibson Charitable Trust
The Space
Wolfson Foundation
Anhysbys

Cylch Cyfarwyddwr Artistig

Anthony & Elizabeth Bunker
Ann & Giles Currie
Andrew Fletcher
David Macfarlane
Marian & Gordon Pell
Mathew Prichard
Clive & Sylvia Richards
John Ward

Noddwyr Diemwnt

Philippa & David Seligman

Chych y Llywydd WNO

Honorary President: Mathew Prichard
David Andrews
Anthony & Elizabeth Bunker
Peter & Kate Carroll
Ann & Giles Currie
Lord Davies
D Morgan
Gerard & Elisabeth Elias
Sir Anthony & Lady Evans
Christine Eynon
Andrew Fletcher
Martin & Jo Furber
Dylan & Margaret Jones
Margrette & John Jones
James & Clare Kirkman
Huw & Jan Lewis
Mark & Melanie Molyneux
Clive & Sylvia Richards
John Ward
Lindsay & Meriel Watkins
In memoriam Ilsa Yardley
Anhysbys

Bwrsariaethau WNO

Anthony Evans Scholarship
Chris Ball Bursary
Sir John Moores Award
Parry Family Bursary
Schäfer Bursary
Mary Warner Trust

Partneriaid WNO

Patron: Bryn Terfel CBE

Cylch Cerddorfa WNO

Cymdeithas Idloes Owen WNO

Cyfeillion WNO

Cyfeillion Americanaidd WNO

Bwrdd Cyfarwyddwyr WNO

Mark Molyneux (Cadeirydd)
Hilary Boulding
Anthony Bunker
Toks Dada
Daniel Evans
Tony Hales CBE
Fflur Jones
Menna Richards OBE
Elen ap Robert
Martyn Ryan
Stephen Thomas
Will Wyatt CBE

Bwrdd Ymgynghorol WNO

Justin Albert
Nancy Lavin Albert
Saphieh Ashtiany
Geraint Talfan Davies OBE DL
Colin Fletcher
April Gow
Roddy Gow OBE
Keith Griffiths
Harry Hyman
Samantha Maskrey
Gordon Pell
Marian Pell
Christopher Pickup, LVO OBE
John J Studzinski CBE
William Tudor John

**Rho Bwrdd Cyfarwyddwyr a Bwrdd
Ymgynghorol WNO eu harbenigedd
a'u profiad er mwyn cynorthwyo yn
natblygiad y Cwmni yn y dyfodol.
Rydym yn gwerthfawrogi eu
cymorth yn fawr.**

Hoffai WNO ddiolch yn arbennig i'r teulu Getty am eu cefnogaeth yn ystod y pum mlynedd gyntaf o'r British Firsts Series

Edrych ymlaen

Mae'r uchafbwyntiau i edrych ymlaen atynt yn 2017/2018 yn cynnwys:

Chwyldro Rwsia yn Hydref 2017, gyda pherfformiadau o *Khovanshchina*, *Eugene Onegin* a *From the House of the Dead* fel rhan o'r tymor Rwsia 17 ledled Cymru

Cynhyrchiad newydd o *La forza del destino*, y cyntaf o Driawd Verdi 3 blynedd.

Comisiwn newydd sbon gan WNO, *Rhondda Rips It Up!*, yn adrodd hanes y swffragét Gymreig Magaret Haig Thomas (Lady Rhondda).

Adfywiadau clasurol o *Tosca* a *Don Giovanni* yng Ngwanwyn 2018.



Cadw mewn cysylltiad â WNO

wno.org.uk



Supported by
The National Lottery
through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan

Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Modur gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



LOTTERY FUNDED



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**